O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2017 Rhif 732 (Cy. 175)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Man i'r Gorllewin o Langollen, Sir Ddinbych) (Cyfyngiadau Cyflymder Dros Dro a Dim Goddiweddyd) 2017

Gwnaed *30 Mehefin 2017*

Yn dod i rym *10 Gorffennaf 2017*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Gefnffordd yr A5 Llundain i Gaergybi, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a'i wahardd ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 10 Gorffennaf 2017 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Man i'r Gorllewin o Langollen, Sir Ddinbych) (Cyfyngiadau Cyflymder Dros Dro a Dim Goddiweddyd) 2017.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S.1999/672, ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.